# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ar gyfer dydd Mawrth. Gofynnodd yr Aelodau pam y cafodd datganiad y Gweinidog Adnoddau Naturiol ar Newid yn yr Hinsawdd ei dynnu yn ôl.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r pleidleisiau ar bob eitem o fusnes ac eithrio'r ddadl Cyfnod 3 yn cael eu cynnal cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth, ac y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael ei chynnal yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y trafodion ar gyfer egwyl o 10 munud cyn dechrau ar drafodion Cyfnod 3.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 25 Mawrth 2015**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Pwyllgorau

4.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor Busnes yn gofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer ystyried y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yng Nghyfnod 1 fel y gallai glywed mwy o dystiolaeth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y cynnig i ymestyn y terfynau amser ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 1 o 10 Ebrill 2015 i 8 May 2015 ac ar estyniad cysylltiedig i'r Pwyllgor gwblhau unrhyw drafodion posibl yng Nghyfnod 2 o 5 Mehefin 2015 i 17 Gorffennaf 2015.

4.2 Papur i'w nodi - Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Amser cyfarfod estynedig

Nododd y Rheolwyr Busnes fwriad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddechrau rhai cyfarfodydd yn gynharach na'r amser arferol, sef 09:00, er mwyn cwblhau ymchwiliad yr oedd y Pwyllgor wedi cytuno ei gynnal cyn y Pasg.

**Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wrth Reolwyr Busnes fod posibiliad y byddai Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei drefnu ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Mawrth ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth mewn perthynas â pheidio â gwahaniaethu yn erbyn chwythwyr chwiban yn y GIG. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno papur ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yr wythnos nesaf.